Hawdd Ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth yn eich barn chi yw cartre' digonol a chartre y mae pobl yn gallu ei fforddio



Llywodraeth Cymru sgrifennodd y ddogfen hon. Mae'n fersiwn hawdd ei darllen o'r papur gwyrdd **A Call for Evidence on Securing a Path Towards Adequate Housing.**

Mehefin 2023

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon 3

Cyflwyniad 4

Cartref Digonol 6

Tai mae pobl yn gallu eu fforddio 7


Rhywbeth arall 9

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47771, ISBN digidol 978-1-83504-141-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae'r ddogfen hon yn siarad am dai a beth mae pobl yn gallu ei fforddio. Gallwch wedyn ddweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl.



Rydyn ni wedi rhoi geiriau anodd mewn **glas**.

Y tro cyntaf y bydd gair anodd yn codi, bydd blwch yn esbonio beth mae'n feddwl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

'Ni' yw Llywodraeth Cymru.

Os ydych am ddarllen y ddogfen hon yn Saesneg, ewch i www.llyw.cymru/creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd

# Cyflwyniad

## Beth ydyn ni’n wneud a pam?




Rydyn ni am wybod beth mae pobl yn feddwl am gost rhentu cartre’ yng Nghymru.



Dylai pawb yng Nghymru allu fforddio cartre’ a chael cartre’ diogel.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru’n gallu newid y ffordd y mae pobl yn rhentu eu cartre’.



Rydyn ni eisiau clywed beth ydych chi'n feddwl am y pethau rydyn ni'n trïo eu gwneud yn well.




Gallwch ddweud eich dweud yn yr **ymgynghoriad** tan 15 Medi.

Mewn **ymgynghoriad**, rydyn ni'n gofyn i bobl am eu barn am y newidiadau rydyn ni'n gwneud neu'n meddwl eu gwneud.

# Cartref Digonol



Rydyn ni eisiau deall beth ydych chi'n feddwl yw cartre' **digonol** i bobl sy'n byw yng Nghymru.

Mae tŷ yn **ddigonol** os yw'n cwrdd ag anghenion y bobl sy'n byw ynddo. Mae hynny'n golygu ei fod yn ddiogel, a'ch bod yn gallu fforddio byw ynddo.



Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut ydyn ni'n wneud a beth sy angen i ni wneud mwy ohono.

# Tai mae pobl yn gallu eu fforddio



Mae llawer o bobl yn cael problem talu rhent.



Rydyn ni eisiau gwybod beth yw rhent resymol yng Nghymru.


## Mesurau i Reoli Rhenti




Mae gan rai gwledydd reolau ynghylch faint y gall landlord godi'r rhent.




Mesurau rheoli rhenti yw'r enw ar y rheolau hyn.



Bydd rhai mesurau'n stopio rhent rhag codi'n uwch na rhyw bwynt. Bydd mesurau eraill yn stopio'r rhent rhag codi o gwbl.



Bydd mesurau eraill yn gadael i'r rhent godi dim ond tamaid bach.



Rydyn ni eisiau gwybod a oes angen mesurau i reoli rhenti yng Nghymru.



Os ydych chi'n credu bod angen mesurau, dywedwch ba fesurau a pam.

## Rhywbeth arall



Oes rhywbeth arall sy'n bwysig am gartre' digonol neu gartre' mae pobl yn gallu ei fforddio.




Rydyn ni eisiau clywed beth ydych chi'n feddwl. E-bostiwch ni i ddweud, ar taisectorpreifat@llyw.cymru




Gallwch hefyd ateb y cwestiynau ar-lein https://www.llyw.cymru/creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd